



Prosiectau Gwella Cydweithredol QAA Cymru 2022-23 a ariennir gan CCAUC

Micro-gymwysterau / Cwynion Myfyrwyr ac Amgylchiadau Esgusodol

Galwad am Fynegiant o Ddiddordeb

Hoffech chi arwain prosiect gwelliant cydweithredol gyda chydweithwyr o ddarparwyr addysg uwch eraill yng Nghymru sy'n aelodau o QAA?

Beth yw'r gweithgorau?

1 Nod y gweithgorau hyn rhwng darparwyr addysg uwch yng Nghymru sy'n aelodau o QAA yw hyrwyddo cydweithrediad a datblygiad o fewn y sector. Mae'r rhain yn brosiectau lle mae grwpiau o ddarparwyr yn cytuno i weithio ar y cyd ar faterion sydd o fudd i bawb o fewn y grŵp hwnnw, ac sydd â photensial i ychwanegu gwerth i'r sector cyfan ar ôl eu cwblhau. Gofynnir i'r grwpiau prosiect hyn adrodd ar eu cynnydd i QAA Cymru a rhannu'r hyn maent wedi'i ddysgu o'u gweithgaredd yn rheolaidd. Bydd y grwpiau prosiect hyn yn cael cymorth gan QAA Cymru ar ffurf grant gan CCAUC a rhywfaint o gefnogaeth gan staff.

2 Fe'ch gwahoddir i fynegi diddordeb mewn arwain un neu fwy o Brosiectau Gwelliant Cydweithredol. Os oes gennych chi syniad ar gyfer prosiect ond heb ddynodi unrhyw bartneriaid i gydweithredu â nhw, rydym yn eich annog i gyflwyno mynegiant o ddiddordeb o hyd. Yn dilyn y dyddiad cau, bydd QAA yn mynd ati i ganfod cynigion ar gyfer prosiectau sydd â nodau cyffelyb, a gall weithio gyda darparwyr i ffurfio Prosiect Gwelliant Cydweithredol.

3 Mae'r alwad hon ar gyfer **dau brosiect penodol yn unig**, sydd i'w hariannu drwy Lythyr Grant CCAUC ar gyfer gweithgareddau sector a hwylusir gan QAA. Y ddau faes pwnc yw **Micro-gymwysterau a Chwynion Myfyrwyr ac Amgylchiadau Esgusodol**. Ni fydd cynigion y tu allan i'r meysydd hyn yn cael eu hystyried.

Pa brosiectau y mae QAA wedi rhoi cymorth iddynt o'r blaen?

4 Fel sefydliad, mae gan QAA hanes hir o gefnogi gweithgarwch gwelliant cydweithredol ar draws y sector.

5 Yn benodol yng Nghymru, lansiodd QAA Cymru alwad am y Prosiectau Gwelliant Cydweithredol cyntaf ar gyfer Cymru ym mis Mawrth 2021. Roedd y prosiectau a ddatblygwyd fel rhan o'r fenter hon yn cynnwys:

- [Ymgysylltiad myfyrwyr â dysgu](#)
- Arweinydd: Prifysgol Bangor (partneriaid cydweithredol: Grŵp Llandrillo Menai)
- Menter cyflogwyr cyfrwng Cymraeg
- Arweinydd: Prifysgol De Cymru (partneriaid cydweithredol: Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, Coleg y Cymoedd, Y Coleg Merthyr Tudful)
- Gwreiddio gwersi COVID-19 a ddysgwyd i wella cymunedau dysgu
- Arweinydd: Prifysgol De Cymru (partneriaid cydweithredol: Coleg Caerdydd a'r Fro, Coleg Gwent, NPTC)
- [Datblygu adnoddau ar gyfer myfyrwyr Ôl-Raddedig Ymchwil i'w cynorthwyo i baratoi am eu viva](#)
- Arweinydd: Prifysgol De Cymru (partneriaid cydweithredol: Cyng rhair y Brifysgol, Prifysgol Huddersfield, Prifysgol Coventry). Ariennir y prosiect hwn trwy gyllido ar gyfer gwelliant cydweithredol yng Nghymru, ond daeth i fodolaeth drwy gais gan aelodaeth ledled y DU am brosiectau.
- Mae QAA Cymru hefyd wedi bod yn cefnogi prosiect ar alluogi cyd-greu mewn asesu ar y cyd â Phrifysgol Aberystwyth, Prifysgol Bangor, Prifysgol Caerdydd a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant

6 Mae QAA yn cefnogi Prosiectau Gwelliant Cydweithredol sy'n cael eu harwain gan aelodau yn Lloegr trwy Aelodaeth QAA ledled y DU. Gellir dod o hyd i'r prosiectau sydd wedi'u cwblhau ac sydd ar ddod ar y [wefan QAA](#).

7 Mae QAA hefyd yn cefnogi clystyrau cydweithredol fel rhan o'r [Themâu Gwelliant QAA yr Alban](#). Mae ystod o ddeilliannau ac allbynnau o bob clwstwr cydweithredol ar gael ar y [wefan Themâu Gwelliant](#), gan gynnwys prosiectau sy'n ymwneud â'r Thema Welliant gyfredol: [Cymunedau Dysgu Gwydn](#)

Sut mae'r pynciau'n cael eu dynodi a'u dewis?

8 Ar gyfer 2022-23, mae QAA Cymru wedi derbyn cyllid gan CCAUC i gefnogi hyd at ddau brosiect ym meysydd **Micro-gymwysterau**¹ a **Chwynion Myfyrwyr ac Amgylchiadau Esgusodol**.

9 Mae QAA Cymru hefyd wedi derbyn cyllid gan CCAUC i gefnogi gwaith cydweithredol pellach sy'n deillio o Fuddsoddiad Addysg Uwch CCAUC a phrosiect dysgu digidol y Gronfa Adfer ar gyfer Cymru gyfan dan arweiniad Prifysgol Glyndŵr Wrecsam ar ran Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru Mae QAA yn gweithio gyda Rhwydwaith Dysgu ac Addysgu Prifysgolion Cymru i ddynodi'r prosiect hwn.

10 Os ydym yn derbyn mwy o gynigion nag y gallwn eu cynnal ar hyn o bryd, mae gennym set o feini prawf ar gyfer dethol o blith y mynegiadau o ddiddordeb (gweler paragraff 11).

¹ Mae QAA yn arwain prosiect Micro-gymwysterau, fel rhan o'r trefniadau grant gyda CCAUC, yn 2022-23. Mae'r prosiect hwn yn rhoi sylw i arfer cyfredol yn y sector addysg uwch yng Nghymru a sut, er enghraifft, y mae'r [Nodweddion Datganiad](#) yn cael ei ddefnyddio. Bydd y prosiect yn anelu at rannu arfer da a'r hyn a ddysgwyd drwy weminar ar gyfer y sector yn 2023. Felly, efallai y byddech am ystyried sut y gall prosiect yn y maes hwn ategu'r gwaith hwn. Mae croeso i chi gysylltu â QAA am fwy o wybodaeth.

Beth yw'r broses a'r meini prawf ar gyfer dethol?

11 Bydd y mynegiadau o ddiddordeb yn cael eu hadolygu gan QAA Cymru ar sail:

- aliniad â'r themâu hyn: **Micro-gymwysterau a Chwynion Myfyrwyr ac Amgylchiadau Esgusodol**
- nifer y sefydliadau (a / neu undebau myfyrwyr) sy'n cymryd rhan weithredol yn y prosiect (rhaid i'r nifer fod o leiaf tri neu bedwar fel arfer)
- potensial i'r sector cyfan elwa o'r gwaith ar ôl ei gwblhau
- effaith ar / budd i'r darparwyr sy'n ymwneud â'r gweithgor a'u myfyrwyr
- faint o ymgysylltiad myfyrwyr sydd yn y gweithgaredd
- cynlluniau ar gyfer lledaenu deilliannau ar draws y sector
- gwerth am arian
- y gallu i gwblhau'r prosiect erbyn 31^{ain} Gorffennaf 2023
- ystyriaeth o'r effaith gadarnhaol y bydd y prosiect yn ei chael ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / dwyieithog a chyfleoedd ar gyfer astudio.

Beth yw'r dyddiadau allweddol?

12 Mae'r dyddiadau allweddol sy'n ymwneud â'r alwad hon am fynegiadau o ddiddordeb fel a ganlyn:

- dylid dychwelyd mynegiadau o ddiddordeb i h.thomas@qaa.ac.uk ynghyd â chopi at ARCAdmin@qaa.ac.uk erbyn dydd Mercher 22^{ain} Chwefror 2023 (rydym yn croesawu ymatebion yn Saesneg ac yn Gymraeg)
- bydd penderfyniadau ynghylch pob mynegiant o ddiddordeb yn cael eu hadrodd i'r darparwyr dan sylw yn ystod yr wythnos sy'n dechrau 27^{fed} Chwefror 2023 fan pellaf
- bydd angen i gynigion llwyddiannus ar gyfer prosiectau gychwyn ac ymrwymo gwariant yn 2022-23

Beth yw lefel y cymorth ariannol?

13 Bydd yr arian a ddyrennir i fynegiadau o ddiddordeb llwyddiannus yn dibynnu ar natur y gweithgaredd a'r deilliannau a ragwelir; ni fydd gwariant ar gyfer pob prosiect unigol **yn fwy na £3,000**. Dylai mynegiadau o ddiddordeb gynnwys manylion ynghylch faint o arian ac adnoddau eraill rydych chi'n gofyn amdanynt, ynghyd ag arwydd o sut y bydd yr arian yn cael ei ddefnyddio.

14 Bydd y cyllid yn cynorthwyo eich gwaith a'r allbynnau arfaethedig, a allai gynnwys:

- Datblygu adnoddau ymarferol i'w cyhoeddi ar gyfer y sector ehangach
- Cynhyrchu deunydd ysgrifenedig neu adnodd amlgyfrwng i'w defnyddio gan fyfyrwyr a staff (e.e. astudiaethau achos)
- Cymorth ar gyfer gwerthuso menter sy'n bodoli eisoes
- Cymorth i ddatblygu arfer da neu ganllaw cyfeirio cyflym ar gyfer myfyrwyr a staff
- Darparu swm bach o arian i alluogi gweithgaredd sefydliadol i gael ei ymestyn er budd darparwyr ychwanegol.

Nid yw hon yn rhestr gyflawn a bydd allbynnau arfaethedig eraill yn cael eu hystyried.

Beth ydym ni'n gofyn i ddarparwyr ei wneud?

15 Os oes gennych chi ddiddordeb mewn arwain prosiect, cwblhewch y Ffurflen Gais ar gyfer Mynegiant o Ddiddordeb.

16 Nodwch y math o gymorth rydych chi'n gofyn amdano gan QAA Cymru i hwyluso'ch gwaith arfaethedig. Fel rhestr ddangosol, gallai enghreifftiau o gymorth gynnwys:

- cyfeirio at ddeunydd sydd ar gael yn rhwydd yn QAA sy'n ymwneud â'r pwnc
- cymorth ar gyfer gwerthuso menter
- hyrwyddo'r prosiect drwy sianeli cyfathrebu QAA
- darparu cefnogaeth ymarferol er mwyn caniatáu i gyfarfod gael ei gynnal ar-lein neu wyneb-yn-wyneb.

Oes gennych chi ddiddordeb ac eisiau cymryd rhan?

17 Os ydych chi am drafod cynnig neu syniadau ar gyfer prosiect, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych. Gallwch gysylltu â ni ar h.thomas@qaa.ac.uk

Diolch i chi am ddangos diddordeb ac am eich cefnogaeth i'r cyfle hwn a ariennir gan CCAUC mewn cydweithrediad â QAA Cymru – edrychwn ymlaen at glywed gennych!